# CÔD MOESEG EFELYCHWYR GOFAL IECHYD

Gweithgor Côd Moeseg

Cefnogwyd gan:
SSH
Society for Simulation in Healthcare

Cyhoeddwyd 2018.12.02

ssih.org/Code-of-Ethics

™

# CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Ar 13 Ionawr, 2018, daeth grŵp o efelychwyr gofal iechyd o bedwar ban byd ynghyd mewn cynhadledd a gynhaliwyd yn Los Angeles, Califfornia er mwyn cydweithredu ar gôd moeseg unedig ar gyfer gweithwyr proffesiynol efelychu gofal iechyd.

Roedd aelodau o'r gweithgor hwn yn dod o wledydd ar hyd a lled chwe chyfandir gan ddod ag arbenigedd gan ystod o broffesiynau ac arferion efelychu. Roeddent yn cynrychioli arweinyddiaeth gan amrywiaeth o sefydliadau ysgogi a phartneriaid yn y diwydiant.

Gan weithio ynghyd â moesegwyr gan fod yn ystyriol o godau eraill, aeth aelodau'r grŵp ati i ffurfio côd moeseg sy'n berthnasol ar draws disgyblaethau efelychwyr. Mae Côd Moeseg Ysgogwyr Gofal Iechyd yn arddel gwerthoedd uchelgeisiol allweddol sy'n bwysig i ymarfer efelychu: Uniondeb, Tryloywder, Parch Tuag at ei Gilydd, Proffesiynoldeb, Atebolrwydd a Chyfeiriadedd Canlyniadau. Mae'r côd yn adnabod gwerthoedd sy'n bwysig i les pob parti yng nghymuned arfer efelychu gofal iechyd, ac mae'n arddel ein hunaniaeth a'n hymrwymiad i efelychiad gofal iechyd fel proffesiwn.

Mae'r gweithgor yn cynnig Côd Moeseg Efelychwyr Gofal Iechyd i'w fabwysiadu a'i ddefnyddio gan fudiadau proffesiynol, cymdeithasau, a sefydliadau, yn ddibynnol ar

***Ar Gyfer Pwy Mae'r Côd:*** Mae Côd Moeseg Efelychwyr Gofal Iechyd wedi'i gynllunio i arddel gwerthoedd uchelgeisiol ar y lefel gyffredinol uchaf ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol efelychu gofal iechyd.

***Mabwysiadu'r Côd:*** Fel sy'n nodweddiadol o godau moeseg, mae'r Côd hwn yn hunanosodedig. Gan hynny, penderfyniad y
mudiadau, cymdeithasau a sefydliadau yw hi i fabwysiadau a rhannu'r côd yn wirfoddol.

***Anodi'r Côd:*** Mae'n bosib y bydd mudiadau a sefydliadau yn dymuno ehangu ar y côd yn ôl yr angen. Er enghraifft, mae Cymdeithas Seiciatryddol America wedi mabwysiadu'r Côd Moeseg o Gymdeithas Feddygol America yn gyffredinol, a hefyd wedi manylu ymhellach ar egwyddorion y côd ar gyfer pryderon penodol sy'n berthnasol i ofal seiciatrig.

***Cyfieithiadau o'r Côd:*** Anogir cyfieithiadau o'r Côd Moeseg er mwyn cefnogi dealltwriaeth fyd-eang o'r cysyniadau a gynhwysir ynddo a'u mabwysiadu. Gellir cyrchu gwybodaeth am gyfieithu'r Côd Moeseg ar y wefan.

***Ble i Ddod i Hyd i'r Côd:*** Mae'r Côd ar gael yn ssih.org/Code-of-Ethics.

Christine Park

Timothy Murphy

Zalim Balkizov

Thomaz Bittencourt Couto

Pin-Tarng Chen

John Dean

Sharon Decker

Parvati Dev

Dayna Downing

Kris Thomas Dreifuerst

Eliana Escudero Zúñiga

Valerie Fulmer

Grace Gephardt

Leslie Graham

David Grant

Edgar Israel Herrera Bastida

Leslie Hurst

Sabrina Koh

Hani Lababidi

Esther León Castelao

William Lewandowski

Jennifer McCarthy

Elaine Meyer

Geoffrey Miller

Stefan Monk

Debra Nestel

Fadekemi Oginni

Gen Ouchi

Edwin Ozawa

Gina Peña Pavez

Leona Robertson

Ismail Saiboon

Paola Santalucia

Dawn Schocken

Laura Shen

Elizabeth Sinz

Gulcihan Ulufer Sivrikaya

Cathy Smith

Mary Kay Smith

Andrew Spain

Catherine Strayhorn

Elena Tragni

Isabelle Van Herzeele

Robin Wootten

# GWEITHGOR CÔD MOESEG

# CÔD MOESEG EFELYCHWYR GOFAL IECHYD: RHAGLITH

Mae unigolion a sefydliadau sydd yn cymryd rhan mewn efelychiad gofal iechyd yn gweithio tuag at arfer diogel, gwell perfformiad ac ansawdd gofal iechyd. Bydd y Côd Moeseg hwn yn arwain ac yn berthnasol i bawb sy'n arfer efelychiad gofal iechyd.

Fel gweithwyr proffesiynol efelychiad, rydym yn cydnabod bod arfer efelychiad yn dylanwadu ar agweddau niferus o ofal iechyd. Yng ngoleuni'r cyfrifoldeb hwn, rydym yn ymrwymo ein hunain i'r Côd Moeseg canlynol.

Nod y Côd Moeseg Efelychiad Gofal Iechyd yma yw hyrwyddo, cryfhau a chefnogi diwylliant foesegol ymysg pob unigolyn a sefydliad sydd yn defnyddio efelychiad gofal iechyd. Mae'n tanlinellu ymrwymiad Efelychwyr Gofal Iechyd i'r safonau uchaf o uniondeb.

Bwriad y Côd Moeseg hwn yw sicrhau bod Efelychwyr Gofal Iechyd yn ymgymryd â gweithgareddau i'r safonau moesegol uchaf yn fyd-eang. Mae'n tynnu ar y gwerthoedd a'r arferion sylfaenol a fynegwyd gan Raglen Datblygu'r Cenhedloedd Unedig a chymdeithasau proffesiynol eraill, ac yn eu datblygu.

# CÔD MOESEG EFELYCHWYR GOFAL IECHYD: GWERTHOEDD

## I. Uniondeb

Bydd Efelychwyr Gofal Iechyd yn cynnal y safonau uchaf o uniondeb gan gynnwys gonestrwydd, geirwirdeb, tegwch a chraffter barn ym mhob mater sy'n effeithio ar eu dyletswyddau. Byddant yn:

- Parchu a meithrin amgylchedd sefydliadol moesegol.
- Darparu, fel y mae'n briodol, ddatgeliad o ragdybiaeth cynllunio gweithgaredd efelychu, cyfyngiadau, addasiadau a phroblemau.
- Bod yn benodol ac yn ddiamwys ynghylch rhoi gweithgareddau efelychu penodol a dulliau ar waith yn unol â'r dystiolaeth sydd ar gael.
- Gweithio er mwyn dileu unrhyw niwed diangen i fodau dynol, anifeiliaid a'r amgylchedd.
- Anrhydeddu hawliau preifatrwydd unigolion a sefydliadau, a chadw cyfrinachedd data a deilliannau fel y mae'n briodol.
- Parchu a chydnabod pob hawl deallusol ac eiddo a rhoi cydnabyddiaeth ddyledus lle mae'n briodol.

## II. Tryloywder

Bydd Efelychwyr Gofal Iechyd yn rhoi pob gweithgaredd efelychu gofal iechyd ar waith mewn ffordd sy'n hyrwyddo tryloywder ac eglurder yn y prosesau dylunio, cyfathrebu a gwneud penderfyniadau. Byddant yn:

- Cadw at y safonau a dderbyniwyd wrth ddogfennu, dadansoddi, dylunio, datblygu, gweithredu a gwerthuso gweithgareddau efelychu.
- Datgelu unrhyw weithgareddau a allai gynnwys gwrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig.
- Bod yn eglur ynghylch natur a phwrpas y gweithgaredd efelychu, gan gynnwys gweithgareddau ymchwil.
- Cyfyngu ar weithgareddau efelychu sy'n ymwneud â thwyll, gan sicrhau bod twyll yn cael ei leihau cymaint â phosib ac nad yw'n golygu cuddio risg neu fwriad i niweidio neu gosbi.

## III. Parch o'r ddwy ochr

Bydd Efelychwyr Gofal Iechyd yn parchu hawliau, urddas a gwerth pawb. Byddant yn arfer empathi a chydymdeimlad er mwyn cefnogi cymwynasgarwch a pheidio â niweidio pawb sydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau efelychu. Byddant yn:

- Anrhydeddu gwybodaeth, sgiliau gwerthoedd dysgwyr a chydweithwyr a’r ffaith y gallent fod yn agored i niwed.
- Gwrando ar safbwyntiau eraill, gan geisio eu deall.
- Arddangos ymddygiad dyngarol, anrhydeddu amrywiaeth a meithrin cynhwysiant, gan osgoi triniaeth niweidiol.
- Mwyhau diogelwch a lleihau risg corfforol a seicolegol.

## IV. Proffesiynoldeb

Bydd Efelychwyr Gofal Iechyd yn ymddwyn mewn ffordd sy’n cadw’r safonau proffesiynol sy’n gynhenid mewn efelychiad gofal iechyd. Byddant yn:

- Dangos cymhwyster ac agweddau proffesiynol.
- Arddangos datblygiad personol a phroffesiynol parhaus.
- Annog a datblygu cydweithwyr a rhai sydd newydd fynd i mewn i’r proffesiwn efelychiad gofal iechyd.
- Meithrin cyfleoedd ar gyfer datblygu’r proffesiwn efelychiad gofal iechyd.

CÔD MOESEG EFELYCHWYR GOFAL IECHYD: GWERTHOEDD

## V. Atebolrwydd

Bydd Efelychwyr Gofal Iechyd yn atebol am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Byddant yn:

- Chwilio am adborth, yn adfyfyrio arno ac yn ei ymgorffori'n barhaus.
- Cyflwyno eu hunain i gael eu hadolygu'n broffesiynol fel y mae'n ofynnol.
- Bod yn esiamplau o ymddygiad moesegol.
- Arddangos ymddygiad proffesiynol sy'n anrhydeddu'r gymuned efelychu gofal iechyd, y cyflogwyr a hwy eu hunain.
- Adnabod a hysbysu partïon perthnasol o ymddygiadau anniogel, anfoesol, neu amhroffesiynol.
- Dylunio a defnyddio efelychiadau mewn ffordd sy'n defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn ddoeth.
- Bod yn wyliadwrus nid yn unig o ran y deilliannau a ddymunir, ond hefyd o ran canlyniadau anfwriadol posib o'r gweithgaredd efelychu.

## VI. Cyfeiriadedd Canlyniadau

Bydd Efelychwyr Gofal Iechyd yn gwasanaethu er mwyn cefnogi gweithgareddau sy'n gwella ansawdd y proffesiwn a systemau gofal iechyd. Mae deilliannau'n cynnwys pob rhan o'r broses o efelychiad gofal iechyd ac nid ydynt yn gyfyngedig i gynnyrch terfynol. Byddant yn:

- Rhoi sicrwydd o ddefnydd dibynadwy a chredadwy o efelychiad gofal iechyd, yn unol gyda'r safonau ymarfer cydnabyddedig.
- Cymryd rhan mewn gwella ansawdd yn barhaus.
- Creu a mesur traweffaith ar draws ystod o ddeilliannau y gellir eu cyflawni, gan gynnwys yr arfer o efelychu, perfformiad dynol, gwella systemau a chanlyniadau claf uniongyrchol.
- Ymgorffori a gwreiddio'r Côd Moeseg mewn efelychiad gofal iechyd a diwylliant sefydliadol drwyddo draw.
- Defnyddio'r Côd Moeseg yn sail i arferion moesegol mewn meysydd perthnasol.
- Cynyddu gwybodaeth gyhoeddus am efelychiad gofal iechyd drwy hyrwyddo mynediad a rhannu gwybodaeth a phrofiad.

Mae Côd Moeseg Efelychwyr Gofal Iechyd yn arddel gwerthoedd uchelgeisiol allweddol sy'n bwysig i'r arfer o efelychu:

I. Uniondeb

II. Tryloywder

III. Parch o'r ddwy ochr

IV. Proffesiynoldeb

V. Atebolrwydd

VI. Cyfeiriadedd Canlyniadau

*Cefnogwyd gan:*

SSH

Society for Simulation in Healthcare